Wales Centre for Public Policy
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

# Prosiect Gweithredu Rhwydwaith What Works

**Jonathan Sharples, Dan Bristow, Emma Taylor-Collins ac Eleanor McKillop**

Chwefror 2022

# Ein Cenhadaeth

Mae Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru yn helpu gwella'r broses o lunio polisïau a gwasanaethau cyhoeddus trwy gefnogi gweinidogion ac arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus i gael mynediad at dystiolaeth annibynnol drylwyr am yr hyn sy'n gweithio, a'i rhoi ar waith. Mae'n gweithio mewn partneriaeth ag ymchwilwyr ac arbenigwyr polisi blaenllaw i gyfuno a defnyddio tystiolaeth sy'n bodoli eisoes a nodi bylchau lle mae angen cynhyrchu gwybodaeth newydd.

Mae'r Ganolfan yn annibynnol ar y llywodraeth ond yn gweithio'n agos gyda llunwyr polisi ac ymarferwyr i ddatblygu syniadau newydd ynghylch sut i fynd i'r afael â heriau strategol ym meysydd iechyd a gofal cymdeithasol, addysg, tai, yr economi a chyfrifoldebau datganoledig eraill. Mae'n:

- Cefnogi Gweinidogion Llywodraeth Cymru i nodi tystiolaeth awdurdodol ac arbenigedd annibynnol sy'n gallu helpu llywio a gwella polisïau, cael mynediad atynt a'u defnyddio;
- Gweithio gyda gwasanaethau cyhoeddus i gyrchu, cynhyrchu, gwerthuso a defnyddio tystiolaeth ynghylch yr hyn sy'n gweithio wrth fynd i'r afael â'r prif heriau economaidd a chymdeithasol; ac yn
- Tynnu ar ei gwaith gyda Gweinidogion a gwasanaethau cyhoeddus i hyrwyddo dealltwriaeth o sut gall tystiolaeth lywio a gwella'r broses o lunio polisi a gwasanaethau cyhoeddus a chyfrannu at ddamcaniaethau ynghylch llunio a gweithredu polisi.

Trwy secondiadau, lleoliadau PhD a'i rhaglen Prentisiaethau Ymchwil, mae'r Ganolfan hefyd yn helpu meithrin gallu ymysg ymchwilwyr i gymryd rhan mewn ymchwil sy'n berthnasol i bolisi sy'n cael effaith.

Am ragor o wybodaeth, ewch i'n gwefan yn [www.wcpp.org.uk](http://www.wcpp.org.uk)

## Arianwyr Craidd


CARDIFF UNIVERSITY PRIFYSGOL CAERDYDD

**Sefydlwyd Prifysgol Caerdydd** yn 1883. Mae Caerdydd yn brifysgol uchelgeisiol ac arloesol sydd wedi'i lleoli mewn prifddinas ffyniannus, ac mae'n benderfynol o feithrin perthnasoedd rhyngwladol cadarn wrth iddi amlygu ei hymrwymiad i Gymru.

UKRI Economic and Social Research Council

**Mae'r Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (ESRC)** yn rhan o Ymchwil ac Arloesedd y DU, sef sefydliad newydd sy'n dwyn ynghyd saith cyngor ymchwil y DU, Innovate UK ac Research England i wneud y mwyaf o gyfraniad pob cyngor a chreu'r amgylchedd gorau i ymchwil ac arloesi ffynnu.

Llywodraeth Cymru Welsh Government

**Llywodraeth Cymru** yw llywodraeth ddatganoledig Cymru, sy'n gyfrifol am feysydd allweddol o fywyd cyhoeddus, gan gynnwys iechyd, addysg, llywodraeth leol, a'r amgylchedd.

# Cynnwys


Defnyddio 'gweithredu' fel lens 4

Trosolwg o'r prosiect 4

Effaith y pandemig 6

Diddordebau a rennir, cyd-destunau gwahanol 6

Mannau cychwyn a meysydd diddordeb WWCs 7

Dod ag arbenigedd a syniadau i'r rhwydwaith 8

Gweminarau arbenigol 8

Gweithgorau i archwilio cymwysiadau 9

A yw'r prosiect wedi cyflawni ei nodau? 10

Dysgu a datblygu cydweithredol ar draws y Rhwydwaith 17

Myfyrio strwythuredig 17

Cydweithio pwrpasol 18

Model ar gyfer datblygiad proffesiynol a dysgu 18

Camau nesaf 19

Cyfeirnodau 21

# Defnyddio 'gweithredu' fel lens

Mae Canolfannau What Works (WWCs) yn treulio cryn dipyn o amser ac yn gwneud ymdrech sylweddol i drosi a lledaenu tystiolaeth ar gyfer eu cynulleidfaoedd arfaethedig. Ond dim ond os caiff ymgysylltu â thystiolaeth ei drosi'n newidiadau mewn polisïau ac arferion y bydd yr ymdrechion hyn yn arwain at newidiadau mewn arferion. O ystyried yr her hon, mae gan WWCs ddiddordeb mewn sut i ddefnyddio tystiolaeth, yn ogystal â deall 'beth sy'n gweithio'.

Mae gwyddor gweithredu a gwyddor ymddygiad yn feysydd sy'n datblygu'n gyflym, ac yn cynnig cyfleoedd eang i gefnogi'r ymdrechion hyn. Fodd bynnag, hyd yma nid yw'r ymchwil hon wedi treiddio'n eang i lywio sut mae gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu cynllunio a'u darparu yn y DU. Nod y prosiect hwn, sydd wedi'i ariannu drwy Gronfa Strategol ESRC, oedd cymhwyso'r syniadau a'r dystiolaeth ddiweddaraf ar weithredu i waith y WWCs.

Yr amcan cyffredinol oedd datblygu dealltwriaeth gymhwysol o wyddor gweithredu ar draws y Rhwydwaith a, thrwy wneud hynny, gynyddu gallu Canolfannau i gefnogi gweithgarwch gweithredu ar draws gwahanol elfennau o'u gwaith - arloesedd, gwerthuso, cyfuno, trosi a defnyddio.

Gan na fu llawer o ryngweithiadau strwythuredig o'r math hwn ar draws y Rhwydwaith, roedd y prosiect hefyd yn archwilio sut i ddatblygu partneriaethau dysgu cynhyrchiol mewn ffordd sy'n cofleidio gwahanol gyd-destunau a ffocysau'r Canolfannau. Cynhyrchodd y prosiect fewnwelediadau pwysig nid yn unig ynghylch gweithrediad, ond hefyd ynghylch sut i gynnal datblygiad proffesiynol cydweithredol ar draws y Rhwydwaith.

Cymerodd y WWCs canlynol ran ym Mhrosiect Gweithredu Rhwydwaith What Works (WWN): Y Ganolfan Heneiddio'n Well; Sefydliad Gwaddol Addysg; Sefydliad Ymyrraeth Gynnar; Canolfan What Works ar gyfer Lleihau Troseddu; Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru; What Works Lles

## Trosolwg o'r prosiect


Cynlluniwyd y prosiect gyda thri cham:

1. Yn gyntaf, adolygu'r ymwybyddiaeth a'r ddealltwriaeth bresennol mewn perthynas â gweithredu o fewn y WWCs sy'n cymryd rhan, tra hefyd yn diffinio a mireinio sut mae'r Canolfannau am ymgorffori gweithredu yn eu gwaith.

2. Yn ail, cynnal – yng ngoleuni'r adolygiad cychwynnol – raglen o weithdai ar draws y Rhwydwaith i gynyddu ein dealltwriaeth a'n gallu ar y cyd mewn perthynas â phynciau gweithredu perthnasol.
3. Yn olaf, gweithio mewn partneriaeth â Chanolfannau i ddatblygu allbynnau ac adnoddau sy'n manteisio ar dystiolaeth ynghylch gweithredu, i gynnig sylfaen ar gyfer cymwysiadau yn y dyfodol.

Drwy gydol y prosiect, byddai Canolfannau'n cymhwyso'r wybodaeth, yr adnoddau a'r gallu newydd i ffrydiau gwaith presennol gyda chymorth gan Ganolfannau eraill a'r tîm craidd. Mae Ffigur 1 yn dangos strwythur cychwynnol y prosiect:

### Ffigur 1: Strwythur cychwynnol y prosiect





Pan ddechreuodd y prosiect teimlwyd y gellid datblygu seilwaith ar y cyd ar gyfer gweithredu ar gyfer y Rhwydwaith, yn cynnwys modelau, fframweithiau, dulliau a chapasiti cyffredin (cam 3). Roedd yr amcan hwn yn seiliedig ar gyfres o ragdybiaethau:

- Mae WWCs yn wynebu heriau tebyg o ran gweithredu ac yn gweithio mewn cyd-destunau tebyg
- Byddai'r egwyddorion, y dystiolaeth a'r strategaethau sy'n sail i weithredu effeithiol yn drosglwyddadwy ar draws gwahanol feysydd
- Byddai cymhwyso gwybodaeth newydd i waith y Canolfannau yn syml.

Wrth i ni fynd ymlaen i drafod, daeth i'r amlwg bod y tybiaethau hyn yn anghywir ar y cyfan, a oedd yn golygu bod amcanion a fformat y prosiect wedi newid wrth iddo fynd rhagddo. Roedd y fformat terfynol yn cynnwys gollwng y cam cyd-gynllunio (cam 3), ymestyn y cyfnod dysgu (cam 2) a chynnwys cylchoedd trafod a myfyrio i gefnogi cymwysiadau o fewn Canolfannau, fel y dangosir yn Ffigur 2.

### Ffigur 2: Strwythur prosiect wedi'i addasu



## Effaith y pandemig

Roedd y prosiect i fod i ddechrau ym mis Mawrth 2020, a oedd yn cyd-daro â dechrau pandemig COVID-19. O ganlyniad, symudodd y prosiect o ryngweithio wyneb yn wyneb i ryngweithiadau rhithwir. Roedd y fformat yn cynnwys gweminarau cydweithredol gyda thrafodaethau ar-lein pellach yn y Canolfannau i archwilio materion trosglwyddo a chymwysiadau. Yn anochel, gwnaeth y pandemig darfu rhywfaint ar y prosiect – gan gynnwys oedi ar y dechrau – er i'r rhaglen barhau i raddau helaeth fel y bwriadwyd, gyda lefel ymgysylltu uchel gan y Canolfannau. Efallai bod y newid i fformat rhithwir wedi rhoi mwy o gyfleoedd i amrywiaeth o gydweithwyr gymryd rhan.

# Diddordebau a rennir, cyd-destunau gwahanol

Datgelodd cam Adolygu'r prosiect fod gan WWCs ddiddordeb mewn gweithredu am amrywiaeth o resymau. Er enghraifft, mae gan rai Canolfannau ddiddordeb mewn sut mae ymarferwyr yn gwneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth, tra bod gan Ganolfannau eraill ddiddordeb mewn gweithredu polisïau. Y gweithgaredd cyntaf, felly, oedd penderfynu ar ein safbwyntiau presennol, yn unigol fel Canolfannau ac fel Rhwydwaith, mewn perthynas â gweithredu:

- Pwy mae Canolfannau am ddylanwadu arnynt? Ym mha ffordd?
- Beth sy'n cael ei weithredu?
- Sut mae gweithredu'n cael ei gefnogi ar hyn o bryd?
- Beth sy'n gweithio'n dda, neu ddim cystal?

Defnyddiwyd profforma syml i gasglu'r wybodaeth hon, ac yna cafwyd trafodaethau gyda a rhwng y Canolfannau. Roedd cael gwell dealltwriaeth o'r safbwyntiau tebyg a gwahaniaethau o ran gweithredu yn sail i'r broses a ddefnyddiwyd a'r cynnwys ar gyfer gweddill y prosiect. Wrth fynd ymlaen i drafod, ystyriwyd bod treulio amser trwy gydol y prosiect i ddeall ein cyd-destunau gwahanol yn hanfodol er mwyn gallu cydweithio'n effeithiol.

# Mannau cychwyn a meysydd diddordeb WWCs

Dangosodd yr adolygiad cychwynnol fod gan WWCs nodau a mannau cychwyn gwahanol iawn o ran gweithredu. Roedd yr amrywiad hwn yn berthnasol i'w hamcanion, cyd-destunau, iaith, a'r lefel o ddealltwriaeth flaenorol. Nid set o gyrff unffurf yw WWN wrth gwrs, ac mae rôl Canolfannau hefyd yn newid dros amser. Roedd maint y gwahaniaethau, a amlygwyd yn gynnar yn y prosiect, yn dangos bod angen teilwra a gosod cyd-destun sylweddol i drosi a chymhwyso cysyniadau gwyddor gweithredu i waith Canolfannau. Yn wir, daeth hon yn thema barhaus drwy gydol y prosiect ac yn gysyniad allweddol wrth ystyried defnyddio ymchwil ar ddefnyddio tystiolaeth. Fe wnaethom archwilio sawl thema yn yr adolygiad cychwynnol:

## Cynulleidfaoedd gwahanol

Mae gan WWCs ystod eang o gynulleidfaoedd a defnyddwyr wrth ystyried gweithredu, gan gynnwys ymarferwyr, llunwyr polisïau, comisiynwyr, cyllidwyr a datblygwyr. Mae gan rai Canolfannau set fwy cul o gynulleidfaoedd (e.e. Canolfan What Works ar gyfer Lleihau Troseddu) a rhai ehangach (e.e. What Works Lles). Un gynulleidfa darged a rennir rhwng Canolfannau yw unigolion a sefydliadau sy'n gwneud penderfyniadau comisiynu, e.e. comisiynwyr polisi rhanbarthol, penaethiaid heddlu.

## Beth sy'n cael ei weithredu?

Mae ystod eang o allbynnau wedi'u llywio gan dystiolaeth yn cael eu gweithredu ar draws y Rhwydwaith, gan gynnwys arferion, polisïau, rhaglenni, egwyddorion, prosesau a strategaethau. At hynny, yn aml mae gan WWCs ddiddordeb mewn gweithredu mwy nag un math o allbwn. Mae hyn yn bwysig, gan fod gwyddor gweithredu yn draddodiadol wedi bod â ffocws rhaglennol, yn deillio o UDA gyda ffocws cychwynnol ar ofal iechyd. Mae'r ffocws rhaglennol a meddygol hwn yn golygu bod y sylfaen wybodaeth ar gyfer gweithredu mewn meysydd eraill – e.e. polisïau – yn llai sefydledig, sydd â goblygiadau i Ganolfannau o ran yr ymdrech ychwanegol sydd ei hangen i ddehongli a chymhwyso'r dystiolaeth.

## Diddordebau traws-rwydwaith ar weithredu

Er bod gwahaniaethau sylweddol mewn cyd-destunau ac amcanion sy'n ymwneud â gweithredu ar draws WWN, mae yna rai diddordebau a rennir rhwng rhai Canolfannau serch hynny. Mae hyn yn cynnwys:

- Datblygu iaith a fframweithiau cyffredin e.e. paratoi gwybodaeth o gymharu â gweithredu

- Gwneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth e.e. nodi blaenoriaethau, asesu opsiynau, ffurfio barn ynghylch dichonoldeb
- Datblygu a chryfhau ymyriadau a ddatblygir yn fewnol e.e. mireinio dulliau gweithredu, dewis strategaethau gweithredu
- Monitro prosesau gweithredu
- Cymhwyso gwyddor ymddygiad e.e. fframweithiau COM-B
- Ystyried cyd-destunau defnyddwyr a rhwystrau rhag gweithredu

Ar draws y pynciau penodol hyn, mae diddordeb cyffredinol mewn ymgorffori syniadau a gweithgareddau gweithredu fel rhan o newidiadau system gyfan. Mae canolfannau am newid diwylliannau a ffyrdd o feddwl ynghylch defnyddio ymchwil, nid dim ond datblygu arferion, fel yr esboniodd un cyfranogwr:

> **"Mae ein ffocws cyfan fel Canolfan What Works ar wneud penderfyniadau cadarn sy'n seiliedig ar dystiolaeth"**

# Dod ag arbenigedd a syniadau i'r rhwydwaith

Yn ail gam y prosiect roedd gan (Dysgu) ddwy elfen – gweminarau gyda mewnbwn gan arbenigwyr, a grwpiau trafod i Ganolfannau archwilio goblygiadau eu gwaith.

## Gweminarau arbenigol

Mae'r iaith a'r cysyniadau a ddefnyddir gan Ganolfannau wrth feddwl am weithredu yn wahanol, felly un o'r nodau cychwynnol oedd datblygu rhywfaint o ddealltwriaeth gysyniadol a rennir, gan ddefnyddio syniadau allanol a gwybodaeth fewnol ac enghreifftiau o bob rhan o WWN. Gwnaethom gynnal cyfres o wyth gweithdy strwythuredig, gan archwilio rhai themâu allweddol yn ymwneud â gweithredu a sut y gallent fod yn berthnasol i Ganolfannau What Works.

Y fformat arferol oedd gweithdai 2 awr, gyda mewnbwn gan arbenigwyr allanol ar wyddor a strategaethau gweithredu, ynghyd â chyfleoedd i archwilio sut roedd y syniadau hyn yn gysylltiedig â gwaith Canolfannau.

### Rôl Cyd-destun wrth Weithredu

- Gweminar 1: *The Role of Context in Implementation*, gyda'r Athro Annette Boaz (**link**)

- Gweminar 2: *Integrating Contexts: Examples from WWCs* (**link**)

### Gwneud Penderfyniadau ar Sail Tystiolaeth

- Gweminar 3: *Identifying Priorities and Problems*, gyda Stuart Kime (**link**)
- Gweminar 4: *Evidence-informed Decision Making* (**link**)

### Datblygu a Chryfhau Ymyriadau

- Gweminar 5: *How to Develop Interventions with Implementation in Mind – 1,* gyda Dr. Bianca Albers a Jane Lewis (**link**)
- Gweminar 6: *How to Develop Interventions with Implementation in Mind – 2,* gyda Dr. Bianca Albers a Jane Lewis (**link**)
- Gweminar 7: *Rapid Cycle Testing and Design*, gyda Dr. Deon Simpson

### Defnyddio Dull Ymddygiadol

- Gweminar 8: *A Behavioural Science Approach to Implementing Change*, gyda Dr. Danielle D'Lima (link)

## Gweithgorau i archwilio cymwysiadau

Roedd y gweminarau gyda siaradwyr allanol yn werthfawr o ran meithrin dealltwriaeth well o ddamcaniaethau a chysyniadau gweithredu. Fodd bynnag, teimlwyd bod angen trafodaeth a myfyrio pellach i gymhwyso'r dysgu hwnnw o fewn Canolfannau:

> **"Cafwyd trafodaethau damcaniaethol diddorol iawn, ond mae'n teimlo mai'r hyn sydd ei angen nawr yw trafodaethau ymarferol a syniadau ynghylch sut mae hyn yn cael ei ddefnyddio o ddydd i ddydd yn y gwaith."**

Cytunwyd, felly, i archwilio materion trosglwyddo a chymwysiadau mewn gweithgorau llai, wedi'u trefnu o amgylch tair is-thema benodol:

1. *Cynnwys gweithredu yn nyluniad dulliau/ymyriadau*

*2. Integreiddio syniadau gweithredu ar lefel polisïau*

*3. Integreiddio cyd-destun a gweithio gyda gwahanol randdeiliaid*

Bu'r gweithgorau'n myfyrio ar y cyd ar y cysyniadau a'r dystiolaeth a gwmpesir hyd yma, gan rannu enghreifftiau o weithgareddau perthnasol (gan gynnwys achosion lle mae pethau wedi gweithio a heb weithio) a chasglu astudiaethau achos o gymwysiadau. Trafodir allbynnau a chanlyniadau'r cyfnod dysgu yn yr adran ganlynol.

# A yw'r prosiect wedi cyflawni ei nodau?

Nod cyffredinol prosiect Gweithredu WWN oedd datblygu dealltwriaeth gymhwysol o wyddor gweithredu ar draws y Rhwydwaith a, thrwy wneud hynny, gynyddu gallu Canolfannau i gefnogi gweithgarwch gweithredu ar draws eu gwaith. Drwy gydol y prosiect buom yn monitro cynnydd tuag at yr amcanion hyn drwy ystyried pum maen prawf:

- **Ymgysylltu** – A yw WWCs yn cymryd rhan yn yr agweddau ar y prosiect sydd o ddiddordeb iddynt?
- **Dealltwriaeth** – A yw ein gwybodaeth ar y cyd am weithredu yn datblygu?
- **Cydweithio** – A yw gwybodaeth a strategaethau'n cael eu rhannu ar draws y Rhwydwaith?
- **Allbynnau** – A yw deunyddiau ac adnoddau yn cael eu datblygu a all gefnogi gwaith y Ganolfan?
- **Cymwysiadau** – A oes enghreifftiau o'r gwaith yn llywio gwaith gweithredu ehangach y Ganolfan yn uniongyrchol

Mae'r adrannau isod yn crynhoi'r cynnydd a wnaed yn y pum maes hyn a'r syniadau a gynhyrchwyd yn y broses. Daw tystiolaeth a syniadau o'r ffynonellau canlynol:

- Dau arolwg dienw gyda chyfranogwyr (canol mis Chwefror 2020 ac ar ddiwedd y prosiect ym mis Awst 2020)
- 'Diweddariadau cynnydd' Canolfannau What Works – crynodebau o ddiddordebau a chymwysiadau'r presennol a'r dyfodol yn ymwneud â gweithredu, a ysgrifennwyd gan Ganolfannau ar ddiwedd y prosiect
- Trafodaethau rhwng Canolfannau drwy gydol y prosiect

## Ymgysylltu – A yw WWCs yn cymryd rhan yn yr agweddau ar y prosiect sydd o ddiddordeb iddynt?

Roedd yr ymgysylltu â gwahanol elfennau'r prosiect yn ardderchog ar y cyfan. Cymerodd WWCs ran ym mhob cam o'r prosiect, gan lywio'i gyfeiriad strategol. Fel arfer, roedd gan bob WWC un neu ddau o bobl a oedd yn cymryd rhan yn gyson drwy gydol y prosiect, ond byddai cydweithwyr ychwanegol yn cael eu cynnwys mewn trafodaethau a gweminarau lle bo'n briodol.

Fel y byddwn yn ei drafod yn ddiweddarach, canfuwyd bod cymhwyso ymchwil gweithredu yn broses hynod weithgar a chyd-destunol. Byddai felly wedi helpu i sefydlu disgwyliadau cliriach o'r cychwyn cyntaf ar gyfer y prosesau sydd eu hangen i archwilio cymwysiadau yn ôl yn y Canolfannau (gweler yr adran Myfyrdodau isod).

## Dealltwriaeth – A yw ein gwybodaeth ar y cyd am weithredu yn datblygu?

Mae gwneud synnwyr o wyddor gweithredu yn anodd. Gall cymryd amser i ddeall cysyniadau haniaethol a gall yr iaith fod yn ddryslyd, yn enwedig wrth edrych ar draws gwahanol feysydd ymchwil e.e. gwyddor gweithredu, gwyddor ymddygiad, gwyddor wleidyddol. Mae gwahanol feysydd ymchwil yn defnyddio llawer o wahanol fodelau a fframweithiau damcaniaethol, sy'n dadansoddi ffactorau, gweithgareddau ac ymddygiadau sy'n cyfrannu at weithredu mewn ffyrdd cyferbyniol. Yn aml mae angen ymgysylltu dro ar ôl tro â modelau a chysyniadau gwahanol i ddeall cryfderau, gwendidau a pherthnasedd posibl i waith Canolfan.

Wrth fynd ymlaen i drafod, teimlwyd bod natur fyfyriol a chydweithredol y prosiect yn ddefnyddiol iawn wrth ddatblygu dealltwriaeth gymhwysol o'r ymchwil. Yn aml, drwy gynnal trafodaethau ac archwilio cymwysiadau mewn gwahanol gyd-destunau y datblygwyd dealltwriaeth ddyfnach a chynnil.

Mae arwyddion clir bod dealltwriaeth y cyfranogwyr o weithredu wedi datblygu'n sylweddol drwy'r prosiect, fel y dangosir yng nghanfyddiadau'r arolwg canolbwynt a'r arolwg ar y diwedd (gweler Ffigur 3 isod).


Dywedodd un cyfranogwr:

> **"Erbyn hyn mae gen i olwg llawer mwy cyflawn o'r hyn y mae gweithredu yn ei olygu, a sut mae hyn yn gweithio mewn sectorau eraill ar wahân i fy un i. Rydw i wedi dysgu mwy am yr ystyriaethau sy'n gorfod cyd-fynd â gweithredu effeithiol, neu ei greu, yn ein cyd-destun ni."**

Teimlwyd bod datblygu iaith a dealltwriaeth a rennir mewn perthynas â gweithredu yn ganlyniad arbennig o bwysig. Teimlwyd yn flaenorol bod datblygu iaith ar y cyd yn rhwystro cydweithio rhwng Canolfannau, fel yr amlygodd un cyfranogwr:

> **"Gall diffyg iaith gyffredin rwystro cydweithio ystyrlon. Rydyn ni'n ceisio siarad am yr un peth, ond dydyn ni ddim yn siŵr a ydyn ni'n siarad am yr un peth, ac yn treulio llawer o amser yn ceisio gweithio allan a ydyn ni'n siarad am yr un peth!"**

**Ffigur 3: Ymatebion arolwg i'r datganiad "Mae fy nealltwriaeth o weithredu wedi newid o ganlyniad i'r prosiect hwn"**





Ffynhonnell: Arolwg ar-lein o gyfranogwyr, yn cymharu arolygon cyntaf ac ail arolygon

| | |
|---|---|
| Anghytuno'n gryf | Strongly disagree |
| Anghytuno | Disagree |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Neither agree nor disagree |
| Cytuno | Agree |
| Cytuno'n gryf | Strongly agree |

## Cydweithio – A yw gwybodaeth a strategaethau'n cael eu rhannu ar draws y Rhwydwaith?

Mae Canolfannau What Works eisoes yn cydweithio mewn amrywiaeth o ffyrdd, boed hynny drwy rannu syniadau am ddulliau (e.e. cynhyrchu canllawiau) neu weithio ar flaenoriaethau ar y cyd. Fodd bynnag, y prosiect hwn, hyd y gwyddom, yw'r tro cyntaf i Ganolfannau gymryd rhan mewn datblygiad proffesiynol ar y cyd dros gyfnod estynedig, gan ddefnyddio proses strwythuredig. Roedd yr holl gyfranogwyr yn teimlo bod hyn yn hybu cydweithio ar draws y Rhwydwaith, fel y nodwyd yn yr arolwg ar ddiwedd y prosiect (Ffigur 4).

**Ffigur 4: Ymatebion arolwg i'r datganiad "Mae'r prosiect hwn wedi helpu i hyrwyddo cydweithio rhwng Canolfannau What Works"**




Ffynhonnell: Arolwg ar-lein o gyfranogwyr

Nodwyd bod nifer o fanteision i gydweithio. Er enghraifft, canfuom fod ystyried enghreifftiau o sut mae Canolfannau eraill yn cefnogi gweithredu wedi rhoi syniadau ar gyfer ein cyd-destun ein hunain. Mae gwneud hynny wedi nodi nifer o ddiddordebau a rennir a chyfleoedd ar gyfer cydweithio yn y dyfodol e.e. What Works Lles a Chanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru yn ystyried gweithredu yng nghyd-destun polisïau. Trafodir syniadau pellach a goblygiadau natur gydweithredol y prosiect yn yr adran Myfyrdodau isod.

## Allbynnau – A yw deunyddiau ac adnoddau yn cael eu datblygu a all gefnogi gwaith y Ganolfan?

Fel y nodwyd yn y cyflwyniad, nod cychwynnol ar gyfer prosiect Gweithredu WWN oedd datblygu modelau, offer a fframweithiau cyffredin ar gyfer y Rhwydwaith, fodd bynnag, wrth i'r prosiect fynd yn ei flaen gwnaethom sylwi nad oedd hynny'n nod defnyddiol nac ymarferol. Mae'r Rhwydwaith yn amrywiol iawn o ran ei nodau, ei gynulleidfaoedd, ei ddulliau gweithredu, a'i fathau o dystiolaeth. Er y gallai fod gan Ganolfannau ddiddordebau sy'n gorgyffwrdd mewn perthynas â gweithredu, maent yn wynebu heriau amlwg o ran yr hyn y mae'n ei olygu a sut beth ydyw.


Canfuom, felly, er y gall cysyniadau ac egwyddorion gweithredu fod yn drosglwyddadwy ar draws gwahanol feysydd, fod angen eu teilwra i gyd-destun a dulliau gweithredu'r Canolfannau eu hunain wrth eu cymhwyso. Un o ganlyniadau sylweddol y prosiect fu diddordeb, iaith a dealltwriaeth gysyniadol a rennir mewn perthynas â gweithredu, ond mae cymhwyso'r syniadau hynny i Ganolfannau yn broses hynod benodol ac yn cymryd amser. Bydd unrhyw ddulliau, modelau ac adnoddau sy'n deillio ohono bron bob amser yn rhai y bydd angen eu teilwra i'r cyd-destun e.e. '*A School's Guide to Implementation*' gan EEF.

Un canlyniad ymarferol canolog o'r prosiect yw cronfa 'adnoddau Gweithredu WWN'. Mae’r adnodd hwn, sydd ar wefan *The Evidence Quarter*, yn coladu fframweithiau, dulliau, papurau ac adroddiadau perthnasol ar gyfer y themâu sy’n codi yn y prosiect. Mae recordiadau fideo o'r holl weminarau wedi’u cynnwys, ynghyd ag astudiaethau achos perthnasol ac adroddiadau gan WWCs. Mae potentsial y gellid diweddaru’r gronfa gyda thystiolaeth newydd ac enghreifftiau o weithgareddau WWN, fel llyfrgell 'fyw' o wybodaeth, diddordebau a gweithgareddau sy’n gysylltiedig â gweithredu.

## Cymwysiadau – A oes enghreifftiau o'r gwaith yn llywio gwaith gweithredu ehangach y Ganolfan yn uniongyrchol

Er y gall ymgysylltu â gwyddor gweithredu fod yn heriol, mae WWCs yn cymhwyso’r hyn a ddysgwyd i’w gwaith o ddydd i ddydd a byddant yn parhau i wneud hynny yn y dyfodol. Nid yw'n syndod bod yr hyn a ddysgwyd wedi dylanwadu mwy ar waith y Canolfannau wrth i'r prosiect fynd rhagddo (gweler Ffigur 5).

**Ffigur 5: Ymatebion arolwg i’r datganiad “Mae’r hyn a ddysgwyd o’r gweminarau yn dylanwadu ar ein gwaith”**




Ffynhonnell: Arolwg ar-lein o gyfranogwyr, yn cymharu arolygon cyntaf ac ail arolygon

Mae cymwysiadau i waith Canolfannau hefyd wedi bod yn ehangach na'r disgwyl. Yn wreiddiol, fframiwyd y prosiect fel un sy'n cefnogi defnyddwyr Canolfannau i weithredu penderfyniadau sydd wedi'u llywio gan dystiolaeth e.e. heddluoedd, penaethiaid. Er bod hyn yn sicr wedi bod yn ffocws i'r prosiect, mae cymwysiadau wedi bod yn llawer ehangach, er enghraifft wrth gymhwyso cysyniadau gweithredu i brosesau mewnol o fewn Canolfannau, neu archwilio sut y gellir cymhwyso cysyniadau gweithredu i brosesau datblygu rhaglenni.

Wrth i'r prosiect fynd rhagddo, cafwyd newid hefyd i'r rhwystrau rhag cymhwyso syniadau gweithredu newydd. Yn y camau cynnar, y prif rwystr rhag cymhwyso oedd diffyg amser a chyfleoedd i wneud hynny. Er bod hyn yn parhau i fod yn her drwy gydol y prosiect, y prif rwystr a nodwyd ar ddiwedd y prosiect oedd anawsterau wrth drosi cysyniadau gweithredu generig i gyd-destunau penodol y Canolfannau.

Mae'r ddau rwystr hyn gyda'i gilydd yn dangos elfen bwysig o'r hyn a ddysgwyd o'r prosiect: bod cymhwyso ymchwil ar weithredu yn gofyn am fwy na dim ond cyflwyno ffyrdd o feddwl a syniadau defnyddiol i'r Rhwydwaith. Mae'n cynnwys Canolfannau'n archwilio syniadau a chysyniadau y tu allan i'w maes arferol, deall eu hunain, yr hyn maent yn ei wneud, gwneud synnwyr o'r hyn y maent wedi'i ddysgu yn eu cyd-destun, a dim ond wedyn meddwl sut mae'n berthnasol.

Fel y cyfryw, mae defnydd effeithiol o ymchwil gweithredu yn gofyn am gryn dipyn o drafod a myfyrio yn ôl yn y sefydliad, yn ogystal â gweithdai hyfforddi a thrafodaethau allanol. Mae'r angen hwn am fyfyrio mewnol yn cael ei bwysleisio gan y ffaith nad yw tystiolaeth, fframweithiau a strategaethau gweithredu yn aml yn cael eu fframio yng nghyd-destun a diddordebau penodol WWCs e.e. gweithredu polisi. Ar y cyfan, arweiniodd hyn at sefyllfa lle nad oedd effaith cymwysiadau'n amlwg, fel y nododd un cyfranogwr:

> **"Mae'n teimlo bod yn rhaid i chi bron fynd drwy gyfnod o ddatblygu'r syniadau a'r cysyniadau, a chwarae o gwmpas gyda nhw yn eich cyd-destun, cyn i'r cymwysiadau ymarferol ddechrau dod i'r amlwg."**

Roedd gan yr effaith hon oblygiadau i ddyluniad y prosiect (a phrosiectau cydweithredol WWN yn y dyfodol), fel y trafodir yn yr adran Myfyrdodau isod. Er gwaethaf yr heriau hyn, mae pob Canolfan wedi cymhwyso'r hyn a ddysgwyd o'r prosiect i'w gwaith, fel y dangosir yn yr enghreifftiau isod:

## Sefydliad Gwaddol Addysg (EEF)

**Mae EEF wedi canolbwyntio ar sut y gall gwyddor gweithredu lywio'r gwaith o gynllunio a datblygu rhaglenni ac ymyriadau, yn enwedig yn y camau cynnar. Arweiniodd gweminar '*Rapid cycle design and testing*', gan Dartington Service Design Lab, at bartneriaeth rhwng y ddau sefydliad. Mae EEF ar hyn o bryd yn cymhwyso'r dull hwn i raglen a ariennir gan y llywodraeth i feithrin syniadau arloesol yn eu camau cyntaf, gyda'r nod o greu ymyriadau sy'n briodol ar gyfer maes gweithredu. Mae'r gwaith hwn wedi datgelu cyfle ehangach yn EEF, i nodi sut beth yw gweithredu effeithiol ar draws pob agwedd ar ei waith - cynllunio, gwerthuso, cyfosod a defnyddio rhaglenni - gydag iaith a chysyniadau cyson drwyddi draw.**

## Sefydliad Ymyrraeth Gynnar (EIF)

**Mae EIF wedi bod yn cymhwyso i'w gwaith y syniadau a nodwyd yn eu hadroddiad yn 2021, *Supporting Evidence Use in Policy and Practice*. Maent wedi defnyddio prosiect Gweithredu WWN i ddatblygu eu syniadau am oblygiadau ymarferol syniadau gwyddor gweithredu. Maent yn cymhwyso model gwyddor ymddygiad COM-B i ddeall gwahanol gyd-destunau ar gyfer defnyddio tystiolaeth a llywio eu gwaith cynhyrchu tystiolaeth. Maent hefyd yn parhau i ganolbwyntio ar effaith drwy gryfhau eu hymagwedd at fonitro gweithredu a mesur effaith mewn perthynas â defnyddio tystiolaeth mewn polisïau ac arferion. Mae hyn yn cynnwys datblygu Damcaniaethau Newid cryf a gosod nodau tymor byr a thymor hir clir ar lefel prosiectau, sydd wedi'u llywio gan syniadau o brosiect Gweithredu WWN.**

## Canolfan What Works ar gyfer Lleihau Troseddu (WWCCR)

**Mae WWCCR yn cymhwyso model gwyddor ymddygiad COM-B yn fewnol i ddeall sut i newid ymddygiad swyddogion a phrif gwnstabliaid: Sut ydym yn pennu cwmpas ein gwaith? Sut mae mynd at wraidd yr hyn sy'n achosi rhai ymddygiadau? Pa ysgogiadau a mecanweithiau sydd angen i ni eu rhoi ar waith i newid yr ymddygiadau hynny? Pa randdeiliaid sydd â'r rolau a'r cyfrifoldebau i newid a chefnogi gweithrediad? Mae aelod o'r tîm sy'n gyfrifol am ddatblygu'r model COM-B wedi'i secondio i WWCCR i helpu i ymgorffori'r egwyddorion a'r prosesau (dull paratoi gwybodaeth y gellid ei drosglwyddo i Ganolfannau eraill). Mae prosiect gweithredu WWN wedi helpu WWCCR i symud o'i waith arferol, fel datblygu canllawiau, i feddwl am fynd ati'n weithredol i newid ymddygiad.**

## Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

**Mae'r Ganolfan wedi cynnal sesiynau hyfforddi a gweithdai mewnol gyda'r tîm cyfan i feithrin dealltwriaeth o wyddor gweithredu ac i ystyried y posibilrwydd o'i chymhwyso i'w gweithrediadau. O ganlyniad, mae wedi dechrau ymgorffori syniadau gwyddor gweithredu mewn darnau penodol o waith. Er enghraifft, mae'r Ganolfan wedi canolbwyntio'n benodol ar gwestiynau gweithredu yn ei gwaith i Lywodraeth Cymru ar drechu tlodi; ac mae'n defnyddio fframweithiau gweithredu i lywio sut mae'n mynd ati i weithio gyda rhanbarthau ar waith aml-asiantaeth i gefnogi plant a theuluoedd. Ochr yn ochr â hyn, mae'r Ganolfan yn datblygu papur trafod sy'n archwilio'r hyn y gall gwyddor gweithredu ei ddweud wrth lunwyr polisïau am weithrediad effeithiol, sy'n cael ei ddefnyddio i lywio gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid yng Nghymru ynghylch dulliau ar gyfer cyflawni'n effeithiol.**

## What Works Lles (WWW)

**Mae gan WWW ddiddordeb mewn helpu ystod eang o gynulleidfaoedd – y Llywodraeth, y sector cyhoeddus, byd busnes, cymdeithas sifil ac ymchwilwyr – i**

**ddefnyddio tystiolaeth a data ar Les. Maent yn rhoi pwyslais sylweddol ar wneud synnwyr o dystiolaeth yng nghyd-destun defnyddwyr a sicrhau bod eu hanghenion, eu diddordebau a'u hiaith wrth wraidd eu dull gweithredu. Maent yn datblygu arbenigedd gweithredu, yn fewnol ac yn allanol, ac mae prosiect Gweithredu WWN wedi rhoi cyfle i ddysgu o ddamcaniaethau, modelau a Chanolfannau What Works eraill. Maent yn defnyddio amrywiaeth o fodelau a mecanweithiau gweithredu, gan gynnwys COM-B ac EAST, ac maent wedi dysgu oddi wrth EIF wrth ddylunio eu menter Gwella Lles Awdurdodau Lleol.**

# Dysgu a datblygu cydweithredol ar draws y Rhwydwaith

Wrth dechrau meddwl am brosiect Gweithredu WWN, nid oeddem yn rhagweld yn glir y byddai'n ymwneud â pharatoi gwybodaeth a dysgu proffesiynol. Dylanwadwyd ar hynny, efallai, gan oramcangyfrif lefel y wybodaeth a'r iaith a rennir sy'n bodoli eisoes ar draws y Rhwydwaith, a thanamcangyfrif yr heriau wrth drosglwyddo a'r wybodaeth honno i gyd-destunau penodol y Canolfannau. Rydym felly wedi dysgu gwersi pwysig ar sut i gydweithio fel Rhwydwaith a sicrhau datblygiad proffesiynol a dysgu ar y cyd. Gellir crynhoi'r syniadau hyn fel 'myfyrio strwythuredig' a 'chydweithio pwrpasol':

## Myfyrio strwythuredig

Mae cymhwyso ymchwil gweithredu yn gofyn am wneud synnwyr ohono yn eich cyd-destun. Canfuom fod hon yn broses hynod weithgar, a oedd yn gofyn am gylch ymgysylltu, myfyrio a deialog. Yn aml, drwy'r trafodaethau - rhai mewnol ac allanol - y daeth dealltwriaeth o'ch gwaith eich hun i'r amlwg. Mae hyn yn amlygu pa mor bwysig oedd natur fyfyriol y prosiect.

Dylai unrhyw brosiect yn y dyfodol sy'n ceisio ymgysylltu â WWCs gyda thystiolaeth, i lywio eu harferion, gael ei gynllunio i adlewyrchu'r angen i gyd-adeiladu gwybodaeth 'newydd' - h.y. integreiddio tystiolaeth â'r profiad a'r arferion. Pe baem yn cynllunio'r prosiect eto byddem yn meddwl yn fwy bwriadol am yr hyn y mae angen i Ganolfannau ei gynnig i'r prosiect er mwyn trosglwyddo a chymhwyso'r dysgu, yn ogystal â'r rhyngweithio rhwng y mewnbynnau canolog – e.e. seminarau hyfforddi – ac elfennau mewnol.  Digwyddodd yr ail-gydbwyso hwn yn organig, er y byddem yn argymell y dylai

prosiectau o'r math hwn yn y dyfodol bennu disgwyliadau clir ar gyfer gwaith o fewn Canolfannau a rhoi cyfleoedd strwythuredig ar gyfer hynny.

# Cydweithio pwrpasol

Os yw'r wers gyntaf yn ymwneud â phwysigrwydd myfyrio, mae'r ail yn ymwneud â pha mor werthfawr yw gwneud y myfyrio hwnnw ar y cyd. Mae defnyddio ymchwil yn broses gymdeithasol sy'n cynnwys llawer o drafod, ac yn aml drwy gydweithio ar ddiddordebau a heriau a rannwyd yn y prosiect, a myfyrio ar ein gwaith gyda'n gilydd, y daeth dealltwriaeth ddyfnach a chymhwysol i'r amlwg.

Mae ymchwil ar ddefnyddio ymchwil yn awgrymu bod systemau ar gyfer defnyddio tystiolaeth yn dibynnu ar gysylltiadau effeithiol, gyda rhyngweithiadau rheolaidd, hwylus, ffyddiog ac sydd wedi'u cydlynu. Mae ein profiadau'n awgrymu bod angen amser ac ymdrech i ddatblygu'r cysylltiadau a'r rhyngweithiadau hyn. Rydym wedi gweld rhyngweithio a chysylltiadau effeithiol yn datblygu ar draws cyfnod y prosiect. Roedd rhythm y rhyngweithiadau'n helpu i greu arferion a phrosesau ar gyfer trafodaethau, a thrwy hynny daeth gwell dealltwriaeth o'n safbwyntiau a'n rolau cydgysylltiedig, ond gwahanol, i'r amlwg. O ganlyniad i'r gyd-ddealltwriaeth hon datblygwyd ymddiriedaeth, a arweiniodd at sgyrsiau mwy hwylus a chynhyrchiol.

Cymerodd y broses hon amser ac ymdrech sylweddol gan gyfranogwyr, ac roedd cael arweinydd prosiect a oedd yn gallu cydlynu'r prosiect a 'chadw'r olwynion i droi' yn helpu'r broses. Roedd datblygu cysylltiadau hefyd yn teimlo fel proses gronnus, gyda'r sgyrsiau ar ddiwedd y prosiect yn teimlo'n fwy cynhyrchiol o lawer, fel y nododd un cyfranogwr:

> **"Mae cymaint o bŵer posibl yma o ran yr effaith y gallwn ei chael drwy ddatblygu iaith ar y cyd ac alinio ein ffordd o feddwl. Mae'n sicr wedi bod yn daith i ni o ran yr hyn a olygwn wrth weithredu – mae hynny ynddo'i hun yn ganlyniad gwych, gan ei fod yn golygu ein bod yn gallu cyfathrebu'n well ymhlith yn gilydd ac eraill. Mae yna bŵer go iawn yn hynny."**


# Model ar gyfer datblygiad proffesiynol a dysgu

Mae Prosiect Gweithredu WWN wedi cynnwys arbrofi gydag ymagweddau at ddatblygiad proffesiynol a dysgu ar draws y Rhwydwaith. Mae cael strwythur a phroses ar gyfer dysgu ar y cyd a dysgu fesul cam wedi teimlo'n wahanol i ryngweithiadau blaenorol

WWN, a chredwn ei fod yn cyfleu egwyddorion dysgu oedolion a datblygiad proffesiynol yn well.

Yn ddiweddar, cyhoeddodd y Sefydliad Gwaddol Addysg ganllawiau i ysgolion ar ddatblygiad proffesiynol effeithiol, yn seiliedig ar adolygiad systematig helaeth (Sims et al, 2021). Mae'n argymell y dylai datblygiad proffesiynol gynnwys mecanweithiau sy'n i) adeiladu gwybodaeth, ii) datblygu technegau a strategaethau newydd, iii) ysgogi cyfranogwyr ac yn iv) ymgorffori dysgu (gweler Ffigur 6 isod).

**Ffigur 6: Mecanweithiau datblygiad proffesiynol effeithiol ym maes addysg**




Ffynhonnell: Sims et al, 2021

| | |
|---|---|
| A Datblygu Gwybodaeth | A Building Knowledge |
| B Ysgogi Athrawon | B Motivating Teachers |
| C Datblygu Technegau Addysgu | C Developing Teaching Techniques |
| D Ymgorffori Arferion | D Embedding Practice |

Roedd Prosiect Gweithredu WWN yn naturiol yn cynnwys rhai o'r mecanweithiau hyn (a mwy wrth iddo ddatblygu), er y dylid cynllunio datblygiad proffesiynol a dysgu yn y dyfodol ar draws WWN gyda mwy nag un mecanwaith o'r cychwyn cyntaf.

# Camau nesaf

Mae Prosiect Gweithredu WWN wedi rhoi hwb i broses lle gall Canolfannau What Works gydweithio i gymhwyso ymchwil a syniadau ynghylch gweithredu. Fe'i bwriadwyd bob amser fel prosiect archwiliadol sy'n ysgogi syniadau a chamau pellach. Felly ble nesaf?

Mae cyfle i fanteisio ar y momentwm a’r cysylltiadau a dyfodd drwy’r prosiect hwn a pharhau â’r cydweithio a’r dysgu ym maes gweithredu. Fel y trafodwyd, mae cymwysiadau ymarferol yn dechrau dod i'r amlwg, er bod Canolfannau yn gweld eu hunain ar ddechrau'r broses honno. Byddai cydweithio strwythuredig pellach, gyda ffocws penodol ar ddatblygiad proffesiynol, yn fuddiol.

Mae Prosiect Gweithredu WWN wedi dangos pa mor werthfawr yw creu proses strwythuredig ar gyfer datblygiad proffesiynol ar y cyd, a chael capasiti penodol i gydlynu'r gwaith, cynnal diddordeb pobl, a hwyluso'r rhyngweithio. Bydd angen cydgysylltu canolog o hyd yn y dyfodol, ond efallai y bydd angen llai o gapasiti i 'gadw'r olwynion i droi' o ganlyniad i’r prosesau a chysylltiadau sydd bellach wedi’u sefydlu. Mae meysydd o ddiddordeb a rennir ar gyfer cydweithredu yn y dyfodol yn cynnwys, ymhlith eraill:

- Cynllunio a datblygu syniadau arloesol a rhaglenni
- Cymhwyso gwyddor ymddygiad
- Cefnogi gweithredu mewn cyd-destunau polisi
- 'Paratoi' ar gyfer gweithredu
- Datblygiad Proffesiynol a Dysgu
- Cymhwyso syniadau ac arferion gweithredu o fewn Canolfannau

Yn y cyfamser, bydd cronfa 'adnoddau gweithredu WWN' yn cael ei chadw yn *The Evidence Quarter* a bydd canfyddiadau'r prosiect yn cael eu cyflwyno i Gyngor What Works a Grŵp Gweithredol WWN. Mae digwyddiad lledaenu ar gyfer cynulleidfaoedd allanol wedi’i gynllunio ar gyfer tymor y gwanwyn yn 2022.

Gan edrych yn ehangach, mae cyfle i ddatblygu a strwythuro proses ar gyfer datblygiad proffesiynol ar y cyd ar draws y rhwydwaith. Bu diddordeb ers tro mewn dysgu a datblygu ar y cyd, ac mae’r prosiect hwn wedi cynnig fformat diriaethol ar gyfer sut y gall hynny weithio. Gellid integreiddio'r syniadau ar ddatblygiad proffesiynol o'r prosiect hwn gyda'r dystiolaeth ddiweddaraf ar ddysgu oedolion, i greu model y gellid ei gymhwyso i feysydd trawsbynciol eraill e.e. datblygu canllawiau, monitro effaith.

# Cyfeirnodau

Bauer M.S., Damschroder L., Hagedorn H., Smith J., Kilbourne, A.M. (2015). A**n introduction to implementation science for the non-specialist.** BMC Psychology, 3(1):32

Sims, S., Fletcher-Wood, H., O'Mara-Eves, A., Cottingham, S., Stansfield, C., Van Herwegen, J., Anders, J. (2021). **What are the Characteristics of Teacher Professional Development that Increase Pupil Achievement? A systematic review and meta-analysis.** Llundain: Sefydliad Gwaddol Addysg. Mae'r adroddiad ar gael yn: **https://educationendowmentfoundation.org.uk/education-evidence/evidence-reviews/teacher- professional-development-characteristics**

## Manylion yr Awduron

**Yr Athro Jonathan Sharples -** Cymrawd Ymchwil Athrawol i'r Sefydliad Gwaddol Addysg, ar secondiad o Goleg Prifysgol Llundain

**Dan Bristow -** Cyfarwyddwr Polisi ac Ymarfer yng Nghanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

**Dr. Emma Taylor-Collins -** Cydymaith Ymchwil yng Nghanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

**Dr. Eleanor Mackillop** - Cydymaith Ymchwil yng Nghanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

I gael rhagor o fanylion, cysylltwch â:
Dan Bristow
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru
+44 (0) 29 2087 5345
**info@wcpp.org.uk**

OGL Mae'r adroddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored

Wales Centre for Public Policy
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru